# CABINET

# DYDD LLUN, 12 RHAGFYR 2022

**PRESENNOL** Cynghorydd D. Price (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
C.A. Davies, L.D. Evans, G. Davies, A. Lenny, E.G. Thomas, A. Vaughan Owen

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
P.M. Hughes, G.H. John, J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)**
Cynghorydd R. James

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.20 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| A Davies | 7 - Derbyn Disgyblion i Ysgolion – Adolygiad Derbyn Disgyblion i Ysgolion Cynradd (Plant sy'n codi'n 4 oed) | Mae hi a'i Merch yn berchen ac yn cynnal meithrinfa |

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR 28 TACHWEDD 2022

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2022 yn gywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. YSTYRIED GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS YCHWANEGOL (PSPO) AR GYFER GORCHMYNION C?N SIR GAERFYRDDIN

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod yr adroddiad ar yr arolwg ymgysylltu a gynhaliwyd ynghylch gweithredu Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016 wedi ei dynnu'n ôl o agenda'r cyfarfod er mwyn gallu gwneud rhagor o waith.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod yr adroddiad wedi cael ei dynnu yn ôl**

## 7. DERBYNIADAU YSGOLION - ADOLYGIAD DERBYNIADAU YSGOLION CYNRADD (CODI 4)

(NODER: Roedd y Cynghorydd A. Davies wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried)

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ar adolygiad a wnaed o bolisi derbyniadau presennol y Cyngor ar gyfer addysg amser llawn i blant pedair oed (plant sy'n codi'n 4 oed), fel yr argymhellwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant 2018/19.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad yn amlinellu'r adolygiad a gynhaliwyd ar y trefniadau derbyn a oedd yn ystyried yr agweddau canlynol:

- Cefndir y trefniadau presennol ar gyfer ysgolion cynradd, a'r polisi 'plant sy'n codi'n 4 oed' yn benodol.
- Manylion am y trefniadau derbyn amser llawn a rhan amser presennol ar gyfer ysgolion cynradd.
- Darparu cymhariaeth o'r trefniadau derbyn amser llawn a rhan-amser â phob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru yn seiliedig ar ymchwil
- Gwybodaeth am bwysigrwydd Niferoedd Derbyn a sut maent yn effeithio ar drefniadau derbyn.
- Amlinellu'r heriau presennol sy'n cael eu hwynebu o ran lle a chapasiti ysgolion, anghysondeb ag Awdurdodau eraill, meithrinfa a darpariaeth blynyddoedd cynnar, cyllid a'r broses dderbyn ei hun.

Roedd yr Adroddiad hefyd yn ystyried goblygiadau posibl unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol o ran canfyddiad rhieni, darpariaeth gytbwys, ailddosbarthu cyllid a threfniadau ymgynghori.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cyngor, fel yr Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir, yn:**

**7.1 Ymgynghori ar newid i drefniadau derbyn amser llawn ar gyfer dysgwyr yn ystod tymor eu pen-blwydd yn 4 oed i'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed yn ystod yr ymarfer ymgynghori blynyddol ynghylch derbyniadau ym mis Ionawr 2023, i'w roi ar waith o bosibl ym mis Medi 2024.**

**7.2 Cynnal asesiad manwl ar effaith y newid mewn polisi ar bob ysgol a chyflwyno argymhelliad ar gyfer pob lleoliad.**

**7.3 Adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.**

**7.4 Ymgysylltu ag ysgolion cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyir ac ysgolion cynradd Catholig Rhufeinig ar yr ymgynghoriad a'r newid arfaethedig i'r polisi.**

## 8. PROTOCOL INTERIM AR Y CYD AR GYFRADDAU MILLTIROEDD

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ar Brotocol ar y Cyd a lofnodwyd gan Fwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Undebau Llafur NJC ynghylch cynyddu cyfradd ad-dalu cyfraddau milltiroedd ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol i gydnabod effaith yr argyfwng costau byw ar y gweithlu a'r pwysau uniongyrchol o ganlyniad i'r cynnydd digynsail mewn costau tanwydd. Roedd yr adroddiad yn manylu ar wahanol elfennau'r protocol, ynghyd â'r swm y cytunwyd arno ar gyfer ad-dalu a fyddai, pe bai'n cael ei fabwysiadu gan y Cyngor, yn cynrychioli cynnydd o 11% neu, £12.5k o ran y gwariant misol cyfartalog o £114k.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet, er mwyn rhoi'r protocol ar y cyd ar waith, byddai angen ei fabwysiadu'n lleol a bydd angen i'r trefniadau o ran ei weinyddiaeth gael eu pennu gan bob awdurdod lleol, yn unol â'i bolisïau a gweithdrefnau lleol.

Nodwyd hefyd mai'r trothwy y cytunwyd arno ar gyfer gweithredu'r taliad ychwanegol oedd pan fyddai pris tanwydd yn cyrraedd £1.50 neu 15.2 ceiniog y filltir fel y pennwyd gan Asesiad Cyfradd Tanwydd Ymgynghorol Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Pe bai cost tanwydd yn gostwng islaw'r trothwy hwnnw, byddai'r taliad ychwanegol yn cael ei ddileu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cyngor yn mabwysiadu'r Protocol interim ar y cyd ar gyfraddau milltiroedd a gytunwyd gan Fwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Undebau Llafur NJC**

## 9. SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2023-24

Bu'r Cabinet yn ystyried yr adroddiad ar Sylfaen y Dreth Gyngor 2023-24. Atgoffwyd Aelodau'r Cabinet ei bod yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu, yn flynyddol, ar Sylfaen y Dreth Gyngor a Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer pob cymuned yn ei ardal, at ddibenion cyfrifo lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn ariannol oedd i ddod a bod y gwaith cyfrifo blynyddol wedi cael ei ddirprwyo i'r Cabinet, o dan ddarpariaethau Adran 84 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004.

Roedd cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y Cyngor Sir am 2023-24 wedi'i nodi yn Nhabl 1a ac wedi'i grynhoi yn Nhabl 1b, a oedd wedi'u hatodi i'r adroddiad. Roedd y cyfrifiad yng nghyswllt Cynghorau Tref a Chymuned unigol ar gyfer 2023-24 wedi'i grynhoi yn Nhabl 2 a'r manylion yn Atodiad A, a oedd hefyd wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Nododd Aelodau'r Cabinet fod adroddiad y Sylfaen Dreth yn darparu cyfrifiadau ar gyfer yr Awdurdod cyfan, yn ogystal â manylion ar gyfer pob ardal cyngor tref a chyngor cymuned at ddibenion eu praesept, ac mai Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024 oedd £75,071.95.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**7.1 bod y cyfrifiadau o ran pennu Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad A o'r adroddiad, yn cael eu Cymeradwyo;**

**7.2. bod Sylfaen y Dreth Gyngor o £75,071.95, fel y manylwyd arni yn Nhablau 1a ac 1b o'r adroddiad, yn cael ei chymeradwyo yng nghyswllt ardal y Cyngor Sir;**

**7.3. bod y sylfeini treth perthnasol yng nghyswllt y Cynghorau Cymuned a Thref unigol, fel y'u rhestrir yn nhabl 2 ac y manylir arnynt yn Atodiad A yr adroddiad, yn cael eu cadarnhau.**

**10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

_________________________ ___________________

**CHAIR** **DATE**